

Rhestr Wirio Arferion Da

Fel rhan o'ch gweithdrefnau diogelu a chydaddoldeb, argymhellir eich bod yn sicrhau bod eich polisïau'n cael eu hadolygu er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol ac arferion gorau. Sylwer nad yw'r rhestr ganlynol yn un hollgynhwysfawr – ei nod yn syml yw eich annog chi i gefnogi eich gweithdrefnau llywodraethu yn y maes hwn, sy'n gyfrifoldeb eich sefydliad.

Gwnewch yn siŵr bod eich sefydliad yn gwneud y canlynol:

1. Cydymffurfio â phob agwedd ar God Ymarfer y DBS a sicrhau bod pob ymgeisydd yn ymwybodol ohono ac yn cael cyfarwyddyd i'w adolygu
2. Trin pob ymgeisydd am swydd yn deg, heb ystyried hil, rhywedd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, cyfrifoldeb am ddibynyddion, oedran, anabled corfforol/meddyliol neu gefndir troseddu (cyflogedig a gwirfoddol)
3. Peidio â gwahaniaethu'n annheg yn erbyn unrhyw ymgeisydd sy'n destun datgeliad ar sail euogfarn neu unrhyw wybodaeth arall a ddatgelir
4. Dim ond gofyn am ddatgeliad ar ôl i asesiad risg trwyadl ddynodi bod cais o'r fath yn briodol ac yn berthnasol i'r swydd dan sylw. Ar gyfer y swyddi hynny y mae angen datgeliad yn rhan ohonynt, bydd pob ffurflen gais, hysbyseb swydd a briff recriwtio'n cynnwys datganiad yn nodi y gofynnir am ddatgeliad
5. Peidio â gofyn cwestiynau am gofnod troseddol cyfan yr ymgeisydd, oni bai fod natur y swydd yn caniatáu gofyn y cwestiwn yn unol â Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974
6. Sicrhau bod ei gyflogeion a chynrychiolwyr eraill sy'n gysylltiedig â recriwtio unigolion wedi cael eu hyfforddi'n addas i adnabod ac asesu perthnasedd ac amgylchiadau troseddau
7. Cydymffurfio â phob agwedd ar Ddeddf Diogelu Data 1998 ac unrhyw ddeddfwriaeth a ddaw i gymryd ei lle, neu ddeddfwriaeth ddiwygio a ddaw i rym o dro i dro
8. Sicrhau, yn unol ag adran 124 Deddf Heddlu 1997, mai dim ond i'r bobl hynny sydd ag awdurdod i'w derbyn fel rhan o'u dyletswyddau y caiff y wybodaeth ei rhoi
9. Sicrhau mai dim ond at y pwrpas penodol y gwnaed cais amdani y caiff y wybodaeth ddatgelu ei defnyddio, a'r pwrpas y rhoddodd yr ymgeisydd ei ganiatâd llawn ar gyfer ei defnyddio
10. Sicrhau mai dim ond i unigolion sy'n gwneud penderfyniadau am recriwtio y caiff tystysgrifau datgelu sy'n manylu ar 'wybodaeth ychwanegol' eu rhoi, ac na fyddant yn cael eu datgelu i'r ymgeisydd o dan unrhyw amgylchiadau
11. Sicrhau, ar ôl gwneud penderfyniad recriwtio, nad yw gwybodaeth ddatgelu'n cael ei chadw am fwy o amser na sy'n gwbl angenrheidiol ac nad yw'n cael ei llungopïo.